

Adroddiad blynyddol am gydymffurfiaid Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu â'r Safonau a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg

Ebrill 2021 i Fawrth 2022

Cyflwyniad

1.1 Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016 yn rhoi dyletswydd statudol ar Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) i fodloni'r safonau a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r modd y mae'r IOPC wedi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2021/22.

Y camau a gymerwyd gennym i gydymffurfio â'r Safonau

- 1.2 Derbyniodd IOPC ei hysbysiad cydymffurfio terfynol gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Hydref 2016. Derbyniwyd fersiwn ddiwygiedig yng Ngorffennaf 2017. Yn gyffredinol, mae'n ofynnol i'r IOPC gydymffurfio â'r 141 o Safonau'r Gymraeg.
- 1.3 Rydym wedi datblygu nifer o gynhyrchion i'n staff i'w helpu i weithredu ac ymwreiddio'r Safonau ar draws ein sefydliad. Roedd y cynnyrch yma yn cynnwys:
- cyfarwyddyd a chwestiynau cyffredin
 - gwybodaeth i staff newydd am y Gymraeg, ei hanes a Safonau'r Gymraeg. Cynhwysir hyn yn ein rhaglen gynefino
 - cyfarwyddyd ar sut i drefnu cyfieithiad Cymraeg
 - polisi mewnol sy'n nodi ein dull o ymdrin â'r Gymraeg
 - porth recriwtio Cymraeg
- 1.4 Mae Cyfarwyddwr Cymru, sy'n siaradwr Cymraeg, wedi parhau i fod yn Noddwr ar gyfer grŵp rhwydwaith siaradwyr Cymraeg ein staff. Sefydlwyd y rhwydwaith i:
- roi cefnogaeth i staff sy'n siarad Cymraeg, y rhai sy'n dysgu Cymraeg a'r rhai sydd â diddordeb yn natblygiad y defnydd o'r iaith o fewn yr IOPC
 - cefnogi hyrwyddiad, monitro a chydymffurfiaid y Safonau'r Gymraeg
 - amlygu a rhannu arfer da
 - roi syniadau a datrysiadau ymarferol i helpu i symud rhwystrau a allai atal cydweithwyr rhag cyflawni hyd eu gallu wrth weithio neu ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg
 - gynorthwyo i ddatblygu polisïau perthnasol; a gwerthuso yn feirniadol y polisïau/gweithdrefnau, materion gweithredol, a darparu gwasanaethau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg
 - godi ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth a phwysigrwydd sensitifrwydd a dewis iaith, ar gyfer staff a defnyddwyr y gwasanaeth

- 1.5 Yn benodol, yn ystod 2021-2022, mae nifer o gamau ychwanegol wedi bod i gynorthwyo ein cydymffurfiad â'r safonau (mae rhagor o fanylion i'w cael yn Atodiad A i'r adroddiad hwn):
- Rydym wedi darparu hyfforddiant iaith Gymraeg ar lefelau amrywiol i staff.
 - Rydym wedi gweithio i wella ein llinell ffôn iaith Gymraeg.
 - Rydym wedi cynnal ymchwiliad trwy gyfrwng y Gymraeg (yn digwydd ar hyn o bryd).
 - Gwnaethom gynhyrchu crynodeb fideo dwyieithog ar ddiwedd ymchwiliad a leolir yng Nghymru.
 - Yn ogystal â'r sesiynau cynefino a chyflwyniadau presennol i'r Gymraeg yn y gweithle, mae cyflwyniad pwrpasol nawr yn cael ei roi i bob ymchwilydd newydd ledled Lloegr a Chymru i egluro sut mae Safonau'r Gymraeg yn berthnasol iddynt yn eu rôl o ddydd i ddydd.
 - Rydym wedi ystyried yn weithredol y defnydd o'r iaith Gymraeg a dwyieithrwydd yn ystod y camau cynllunio a dylunio cychwynnol ar gyfer y system rheoli dogfennau newydd a gynlluniwyd ar gyfer 2023.
 - Mae system blwch post mewnol rhwydwaith staff Query Cymraeg yn parhau i roi cyngor a chymorth i gydweithwyr ac wedi cwblhau dros 30 o geisiadau cyfieithu ar raddfa fach y flwyddyn ddiwethaf.
 - Rydym wedi darparu rhagor o gyngor ac arweiniad i gydweithwyr ynghylch ein llofnodion e-bost mewnol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau.
 - Rydym wedi diweddarau ein llofnodion mewnol a'n hysbysiadau preifatrwydd ymhellach i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau.
 - Mae'r rhwydwaith staff Cymraeg wedi cynnal prosiect ymchwil cychwynnol i ddeall yn well anghenion defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg ac wedi cynnig rhagor o ymchwil i helpu i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y sefydliad ac ysgogi recriwtio ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol.
 - Mae rhwydwaith staff Cymru wedi gweithio gyda dau intern haf o'r Aspiring Professionals Programme i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg o fewn y sefydliad. Maen nhw hefyd wedi arwain ar gynhyrchu posteri dwyieithog newydd ar gyfer ymgyrch y flwyddyn nesaf i ddenu Aspiring Professionals o Gymru yn ogystal â Lloegr.
 - Mae'r rhwydwaith yn parhau i fod yn rhan o'r grŵp cynghori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) sy'n annog cydweithio ar draws 6 rhwydwaith staff y sefydliad. Mae hyn wedi arwain at gydabyddiaeth o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru ar draws y sefydliad ar lefel uwch, gan gyfrannu at ddealltwriaeth gyffredinol well o Safonau'r iaith Gymraeg.
- 1.6 Mae Safonau 155, 161 ac 167 yn nodi bod rhaid i ni gynhyrchu adroddiad blynyddol yn Gymraeg yn ystod pob blwyddyn ariannol, i esbonio sut yr ydym

wedi cydymffurfio â'r Safonau. Gellir gweld disgrifiad o'r gwaith yr ydym wedi ei wneud i gyflawni'r safonau yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.

Gofynion penodol

1.7 Mae Safonau 155, 161 ac 167 yn nodi bod rhaid i'r adroddiad ymdrin â'r tri maes canlynol:

- cwynion am gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg
- sgiliau ein staff yn y Gymraeg
- ein dull o recriwtio

Cwynion

1.8 Gwnaethom dderbyn un gŵyn am ein darpariaeth iaith Gymraeg mewn perthynas â chyfieithu ein ffurflenni ar-lein a chrynodebau ymchwiliad ar ein gwefan. Yn dilyn y gŵyn, rhoesom gynlluniau yn eu lle i unioni'r materion a chawsom ymateb cadarnhaol yn ôl gan yr achwynydd yn diolch i ni am ymchwilio i'w gŵyn.

Sgiliau Cymraeg

1.9 Mae'r tabl isod yn cynnwys gwybodaeth am nifer y staff IOPC sy'n siarad Cymraeg. Yn ystod 2021/22, cynhaliom lefelau un a dau i ddechreuwr a 'chwrs cynyddu hyder'. Rydym hefyd wedi darparu catalog adnoddau iaith Cymraeg i barhau â hunanastudio. Anogir sesiynau grwpiau bach hefyd – Coffi Cwtch – i ymarfer sgyrsgiau yn y Gymraeg. Mae'r dosbarthiadau isod yn cael eu hadrodd gan y siaradwyr eu hunain. Ceir diffiniad o bob lefel yn Atodiad B yr adroddiad hwn.

Mynediad	Sylfaen	Canolradd	Uwch	Rhuglder
32	8	6	3	6

Recriwtio

1.10 Yn 2021/22 hysbysebodd ein sefydliad bedair swydd lle roeddem yn ystyried ei bod yn hanfodol iddynt gael eu llenwi gan siaradwr Cymraeg a naw swydd lle roedd hynny'n ddymunol.

Gweithredoedd arfaethedig

1.11 Yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, bydd gennym Swyddog Datblygu'r Iaith Gymraeg penodedig yn ei swydd. Bydd y swydd hon yn:

- Gyfrifol am oruchwylio'r safonau a'n Strategaeth Iaith Gymraeg a darparu cyngor ac arweiniad i'r sefydliad
- Ynghyd â'n grŵp rhwydwaith siaradwyr Cymraeg y staff, chwilio am ffyrdd i wella monitro ein cydymffurfiad ein hunain â'r safonau, gan ddefnyddio amrywiol ddulliau fel samplu achosion ac ymarferion cwsmer cudd.
- Diwygio'r canllawiau a pholisïau safonau'r Gymraeg cyfredol ac yn darparu nodiadau atgoffa i staff ynghylch eu cyfrifoldebau dan y safonau.
- Gweithio i sicrhau bod y fersiynau Cymraeg a Saesneg o adroddiadau a dogfennau cenedlaethol yn cael eu cyhoeddi'n gydamserol, ble fo'n bosibl.
- Adolygu ein gwefan i sicrhau bod yr holl dudalennau perthnasol yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg ac yn gwbl weithredol.
- Ystyried sut mae'r Gymraeg yn cael ei hasesu yn ein proses asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.
- Adolygu ein prosesau recriwtio i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni yn unol â'r safonau.
- Cryfhau ein trefniadau ar gyfer hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r gwasanaethau a gynigir yn rhan o'r safonau.

IOPC Medi 2022

ATODIAD A: Cydymffurfriad IOPC â Safonau'r Gymraeg: Ebrill 2021 i Fawrth 2022

Rhif	Safon	Camau er mwyn cydymffurfio
Cyflenwi gwasanaeth – gohebiaeth		
1	Os byddwch chi'n derbyn gohebiaeth gan berson yn Gymraeg rhaid i chi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi nodi nad oes eisiau ateb yn Gymraeg.	Hysbyswyd y staff o'r gofyn hwn trwy gyfarwyddyd. Rydym hefyd wedi esbonio sut y gall staff ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu os bydd arnynt eu hangen.
2	Pan fyddwch chi'n gohebu gydag unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid i chi ofyn i A a yw A yn dymuno derbyn gohebiaeth gennych chi yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud bod A yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg rhaid i chi- (a) gadw cofnod o ddymuniad A, (b) gohebu gydag A yn Gymraeg wrth ohebu gydag A o'r pwynt hwnnw ymlaen, a (c) anfon unrhyw ffurflenni y byddwch yn eu hanfon at A o'r pwynt hwnnw ymlaen yn Gymraeg.	Rydym wedi datblygu proses ar gyfer defnyddio ein systemau TG i gofnodi dewisiadau pobl o ran y Gymraeg ac mae'r staff wedi'u hysbysu o hyn trwy gyfarwyddyd.
4	Pan fyddwch chi'n anfon yr un ohebiaeth at nifer o bobl, rhaid i chi gyhoeddi fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd â chyhoeddi'r fersiwn Saesneg.	Hysbyswyd y staff o'r gofyn hwn trwy gyfarwyddyd.
5	Os nad ydych chi'n gwybod a yw unigolyn yn dymuno derbyn gohebiaeth oddi wrthydych chi yn Gymraeg, pan fyddwch chi'n gohebu â'r person hwnnw rhaid i chi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth.	Hysbyswyd y staff o'r gofyn hwn trwy gyfarwyddyd. Rydym hefyd wedi esbonio sut y gall staff ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu os bydd arnynt eu hangen.
6	Os byddwch chi'n cynhyrchu fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg cyfatebol, ni ddylech drin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi'i lofnodi, neu os oes manylion cyswllt yn cael eu darparu yn y fersiwn Saesneg, felly rhaid trin y fersiwn Gymraeg yn yr un ffordd).	Hysbyswyd y staff o'r gofyn hwn trwy gyfarwyddyd.
7	Rhaid i chi ddatgan- (a) mewn gohebiaeth, a (b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd unigolion i ymateb i chi neu i ohebu gyda chi eich bod chi'n croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch chi'n ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.	Mae ein pennawd llythyrau Cymraeg yn unol â'r safon hon. Rydym yn cynnwys llinell safonol ar glawr cefn ein holl wybodaeth ar gyfer y cyhoedd yn nodi ein bod yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg. Cyfeirwch hefyd at safon 78 am wybodaeth ychwanegol.

Cyflenwi Gwasanaeth - Galwadau Ffôn		
8	<p>Pan fydd unigolyn yn cysylltu â chi ar eich prif rif (neu rifau) ffôn, neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alw, rhaid i chi gyfarch y person yn Gymraeg.</p> <p>Rhaid i chi gydymffurfio â safon 8 mewn perthynas ag unrhyw prif rif (neu rifau) ffôn, neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alw: - yng Nghymru.</p>	Hysbyswyd y staff o'r gofyn hwn trwy gyfarwyddyd. Serch hynny, nid oes gennym brif rif ffôn na rhif canolfan alw yng Nghymru ar hyn o bryd.
9	Pan fydd unigolyn yn cysylltu â chi ar eich prif rif (neu rifau) ffôn, neu ar unrhyw linellau cymorth neu ganolfannau galw, rhaid i chi hysbysu'r galwr bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.	Mae gennym linell ffôn Gymraeg bwrpasol. Gall galwyr i'n prif rif ffôn ddewis siarad yn Gymraeg â rhywun. Mae'r neges sy'n esbonio hyn hefyd wedi cael ei recordio yn Gymraeg.
10	Pan fydd unigolyn yn cysylltu â chi ar eich prif rif (neu rifau) ffôn, neu ar unrhyw linellau cymorth neu ganolfannau galw, rhaid i chi ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn llwyr os mai dyna ddymuniad y galwr (trwy drosglwyddo galwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg os oes angen).	Mae gennym linell ffôn Gymraeg bwrpasol.
12	Pan fyddwch chi'n hysbysebu rhifau ffôn, rhifau llinellau cymorth neu wasanaethau canolfan alw, ni ddylech drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	Mae tudalen 'cysylltu â ni' ar ein gwefan ar gael yn Gymraeg.
13	Os ydych chi'n cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif (neu rifau) ffôn, ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alw, rhaid i'r rhif ffôn ar gyfer y gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â'r gwasanaeth Saesneg cyfatebol.	Mae'r rhif ffôn yr un peth ar gyfer galwadau Cymraeg a Saesneg. Gall galwyr i'n prif rif ffôn ddewis siarad yn Gymraeg â rhywun. Mae'r neges sy'n esbonio hyn hefyd wedi cael ei recordio yn Gymraeg.
14	Pan fyddwch chi'n cyhoeddi'ch prif rif ffôn, neu unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau gwasanaeth canolfan alw, rhaid i chi ddatgan (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg.	Mae cyfieithiad Cymraeg y dudalen <u>Cysylltu â ni</u> yn esbonio ein bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg. Mae tudalennau gwe amrywiol eraill wedi cael eu diweddarau i esbonio ein bod yn croesawu galwadau Cymraeg. Mae testun yn cael ei gynnwys yn ein holl gyhoeddiadau sy'n cynnwys ein rhif ffôn, yn Gymraeg a Saesneg.

16	Rhaid i'ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn hysbysu galwyr, yn Gymraeg, bod modd iddynt adael neges yn Gymraeg.	Pan fydd siaradwyr Cymraeg yn galw'r prif switsfwrdd, yn rhan o'r neges maent nawr yn clywed neges yn Gymraeg yn eu gwahodd i gael rheoli eu galwad trwy gyfrwng y Gymraeg. Yna byddant yn cael eu sianelu i'r gwasanaeth cyfrwng Cymraeg (gydag ysgogiadau yn Gymraeg a'r dewis i adael neges llais, oll yn Gymraeg).
17	Pan nad oes gwasanaeth Cymraeg ar gael i ddelio â'ch galwadau i'ch prif rif ffôn (neu rifau), neu unrhyw linell gymorth neu wasanaeth canolfan alw, rhaid i chi hysbysu galwyr, yn Gymraeg (trwy neges awtomataidd neu fel arall), pan fydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.	Rydym yn darparu neges awtomataidd yn Gymraeg.
18	Os bydd unigolyn yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys rhifau llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod yr unigolyn hwnnw yn dymuno derbyn gwasanaeth yn Gymraeg, rhaid i chi ddelio â'r alwad honno yn gyfan gwbl yn Gymraeg (os oes angen trwy drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg).	Hysbyswyd y staff o'r gofyn hwn trwy gyfarwyddyd.
20	<p>Pan fydd unigolyn yn cysylltu â chi ar rif llinell uniongyrchol (boed hynny'n rhif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid i chi sicrhau, wrth gyfarch y person, nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>Rhaid i chi gydymffurfio â safon 20 mewn perthynas ag unrhyw rif llinell uniongyrchol (boed hynny'n rhif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff): - Yng Nghymru.</p>	Mae'r holl staff yn ein swyddfa yng Nghymru wedi derbyn cyfarwyddiadau am gyfarch pobl ar y ffôn yn Gymraeg. Mae'r wybodaeth ar gael ar ein mewnwyd hefyd.
21	<p>Pan fyddwch chi'n ffonio unigolyn ("A") am y tro cyntaf rhaid i chi ofyn i A a yw A yn dymuno derbyn galwadau ffôn gennych chi yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud bod A yn dymuno derbyn galwadau ffôn yn Gymraeg rhaid i chi gadw cofnod o'r dymuniad hwnnw, a chynnal galwadau ffôn a wneir i A o bryd hynny ymlaen yn Gymraeg.</p> <p>Rhaid i chi gydymffurfio â safon 21 o dan yr holl amgylchiadau, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • pan fo'n angenrheidiol i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg ddarparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a • pan na fydd aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn gallu darparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw. 	Rydym wedi datblygu proses trwy ddefnyddio ein systemau TG i gofnodi dewisiadau pobl o ran y Gymraeg a hysbyswyd y staff o hyn trwy gyfarwyddyd.

22	Rhaid i unrhyw systemau ffôn awtomataidd sydd gennych chi ddarparu'r gwasanaeth awtomataidd cyflawn yn Gymraeg.	Pan fydd siaradwyr Cymraeg yn galw'r prif switsfwrdd, yn rhan o'r neges maent nawr yn clywed neges yn Gymraeg yn eu gwahodd i gael rheoli eu galwad trwy gyfrwng y Gymraeg. Yna byddant yn cael eu sianelu i'r gwasanaeth cyfrwng Cymraeg (gydag ysgogiadau yn Gymraeg a'r dewis i adael neges llais, oll yn Gymraeg).
Cyfarfodydd nad ydynt yn agored i'r cyhoedd		
24	Os mai dim ond un person yn unig ("P") yr ydych chi'n ei wahodd i gyfarfod rhaid gofyn i P os yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu P y byddwch chi, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw.	Hysbyswyd y staff o'r gofyn hwn trwy gyfarwyddyd. Wrth drefnu cyfarfod o'r fath, gofynnir i'r unigolyn fydd yno pa iaith a ffafir ganddynt a bydd cyfieithu ar y pryd yn cael ei gynnig os nad oes staff sy'n siarad Cymraeg ar gael yn fewnol.
24A	Os mai dim ond un person yn unig ("P") yr ydych chi wedi'i wahodd i gyfarfod a bod P wedi'ch hysbysu chi bod P yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid i chi drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg i fod ar gael yn y cyfarfod (oni bai eich bod chi'n cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).	Fel yr uchod.
25	Os ydych chi'n gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, rhaid i chi ofyn i bob un a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.	Fel yr uchod.
25A	Os ydych chi wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r bobl a wahoddwyd wedi'ch hysbysu chi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid i chi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.	Fel yr uchod.
25D	Os ydych chi wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod pob un yr ydych chi wedi'u gwahodd yn dweud wrthyh chi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid i chi drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gyfer y gwasanaeth (oni bai eich bod chi'n cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).	Fel yr uchod.
26	Os ydych chi'n gwahodd neu angen i berson ("P") fynd i gyfweiliad- (a) i'ch cynorthwyo chi gydag ymholiad (er enghraifft fel tyst i ddigwyddiad); neu (b) os yw P wedi'i arestio rhaid i chi ofyn i P a yw P yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, ac i hysbysu P y byddwch chi, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw.	Fel yr uchod.
26A	Os ydych chi wedi gwahodd neu ofyn i berson ("P") ddod i gyfweiliad- (a) i'ch cynorthwyo chi gydag ymholiad (er enghraifft fel tyst i ddigwyddiad); neu (b) os yw P wedi'i arestio a bod P wedi'ch hysbysu bod P yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, rhaid i chi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfweiliad (oni bai eich bod chi'n cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).	Fel yr uchod.

27	Os ydych chi'n gwahodd neu'n gofyn i fwy nag un person ddod i gyfweliad- (a) i'ch cynorthwyo chi gydag ymholiad (er enghraifft fel tyst i ddigwyddiad); neu (b) os yw un neu'n fwy o'r bobl hynny wedi'u harestio rhaid i chi ofyn i bob un a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, a'i hysbysu y byddwch chi, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw.	Fel yr uchod.
27A	Os ydych chi'n gwahodd neu'n gofyn i fwy nag un person ddod i gyfweliad- (a) i'ch cynorthwyo chi gydag ymholiad (er enghraifft fel tyst i ddigwyddiad); neu (b) os oes un neu'n fwy o'r bobl hynny wedi'u harestio ac os yw un neu'n fwy o'r bobl hynny wedi'ch hysbysu chi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad rhaid i chi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg ar gael yn y cyfweliad (oni bai eich bod yn cynnal y cyfweliad yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).	Fel yr uchod.
Cyfarfodydd Cyhoeddus		
28	Os ydych chi'n trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd rhaid i chi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sydd yn ei hysbysu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, bod croeso i unrhyw un sy'n mynychu ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.	Hysbyswyd y staff o'r gofyn hwn trwy gyfarwyddyd.
29	Pan fyddwch chi'n anfon gwahoddiadau i gyfarfod yr ydych chi'n ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid i chi anfon y gwahoddiadau yn Gymraeg.	Mae staff wedi'u hysbysu o hyn trwy gyfarwyddyd. Rydym hefyd wedi esbonio sut y gall staff ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu os bydd arnynt eu hangen.
30	Os ydych chi'n gwahodd pobl i siarad mewn cyfarfod yr ydych chi'n ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid i chi- (a) ofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw ef neu hi yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, a (b) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r bobl hynny) wedi'ch hysbysu chi ei fod ef neu hi yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg at y diben hwnnw (oni bai eich bod yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	Hysbyswyd y staff o'r gofyn hwn trwy gyfarwyddyd. Cynigir cyfieithu ar y pryd os oes angen ar gyfer cyfarfodydd yng Nghymru.
31	Os ydych chi'n trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid i chi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid i chi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg- (a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.	Hysbyswyd y staff o'r gofyn hwn trwy gyfarwyddyd. Cynigir cyfieithu ar y pryd os oes angen ar gyfer cyfarfodydd yng Nghymru.

32	Os ydych chi'n arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig yr ydych chi'n ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid i chi sicrhau bod y deunydd yn cael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na thestun Saesneg.	Hysbyswyd y staff o'r gofyn hwn trwy gyfarwyddyd. Rydym hefyd wedi esbonio sut y gall staff ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu os bydd arnynt eu hangen.
Digwyddiadau cyhoeddus		
33	Os ydych chi'n trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid i chi sicrhau, pan fydd y digwyddiad yn cael ei hyrwyddo, nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg (er enghraifft, pan fydd y digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu'i gyhoeddi).	Hysbyswyd y staff o'r gofyn hwn trwy gyfarwyddyd.
34	Os ydych chi'n trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid i chi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ystod y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir ar gyfer unigolion sy'n mynychu'r digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion i'w harddangos yn y digwyddiad ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir yn y digwyddiad).	Hysbyswyd y staff o'r gofyn hwn trwy gyfarwyddyd.
Cyhoeddusrwydd a Hysbysebu		
35	Rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych chi'n eu cynhyrchu gael eu cynhyrchu yn Gymraeg, ac os byddwch chi'n cynhyrchu'r deunydd yn Gymraeg ac yn y Saesneg, ni ddylech drin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r hyn yr ydych chi'n trin y fersiwn Saesneg.	Mae unrhyw ddogfennau cyhoeddusrwydd neu hysbysebu yr ydym yn eu cynhyrchu at ddefnydd y cyhoedd ar gael yn Gymraeg. Cyfeiriwch at safon 38 am ragor o fanylion.
Arddangos deunydd		
36	Rhaid i unrhyw ddeunydd y byddwch chi'n ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, ac ni ddylech drin unrhyw fersiwn iaith Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	Pan fyddwn yn mynd i gynadleddau yng Nghymru rydym yn arddangos y fersiwn Gymraeg o'n taflen: 'Sut i wneud cwyn: canllaw i system gwynion yr heddlu. Mae staff yn ein swyddfa yng Nghymru yn gallu defnyddio baner gyda brand, sy'n cynnwys ein logo Cymraeg. Mae'r faner yn cael ei defnyddio mewn cynadleddau, arddangosfeydd a digwyddiadau eraill lle'r ydym yn arddangos enw'r sefydliad. Mae gennym stondin gynhadledd yn Gymraeg a Saesneg at ddefnydd mewnol ac allanol. Mae nwyddau ar gyfer digwyddiadau mewnol, er enghraifft poteli dŵr, bagiau, cwpanau coffi, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae arwyddion magnetig ar gyfer ein ceir fflyd, sy'n cynnwys logo'r IOPC, ar gael yn Gymraeg yn swyddfa Cymru, ynghyd â siacedi gyda brand yr IOPC a festiau llachar sy'n cynnwys y fersiwn Gymraeg o'n logo.

Cyhoeddi dogfennau		
38	<p>Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych chi'n eu cynhyrchu at ddefnydd y cyhoedd gael eu cynhyrchu yn Gymraeg.</p> <p>Rhaid i chi gydymffurfio â safon 38 mewn perthynas â'r isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Dogfennau sy'n berthnasol i Gymru yn unig; - Dogfennau sydd eisoes ar gael yn Gymraeg cyn 30 Medi 2016. 	<p>Mae'r dogfennau yn Gymraeg yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y daflen: Sut i wneud cwyn: canllaw i system gwynion yr heddlu • ein ffurflen gwynion • ein ffurflenni adolygu/apeliadau • Safonau'r Gymraeg • ein hadroddiad blynyddol • ein hadroddiad effaith • ein cynllun busnes • ein cynllun strategol • ein pecyn i deuluoedd (gwybodaeth i deuluoedd mewn profedigaeth) • ein prif gyhoeddiad ar ganllawiau statudol a chanllawiau eraill ar gyfer staff trin cwynion • ein taflen Hawl Dioddefwyr i Adolygiad (VRR) • ein poster Canllaw i system gwynion yr heddlu i bobl ifanc
45	<p>Os ydych chi'n cynhyrchu dogfen sydd ar gael i'r cyhoedd, ac nad oes unrhyw safon arall wedi gofyn i chi gynhyrchu'r ddogfen yn Gymraeg, rhaid i chi ei chynhyrchu yn Gymraeg:</p> <p>(a) os yw testun y ddogfen yn awgrymu y dylai gael ei chynhyrchu yn Gymraeg, neu</p> <p>(b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylai'r ddogfen gael ei chynhyrchu yn Gymraeg.</p>	<p>Mae staff wedi'u hysbysu o hyn trwy gyfarwyddyd.</p> <p>Gweler safon 38 am enghreifftiau.</p>
46	<p>Os byddwch chi'n cynhyrchu dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (os ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio) rhaid i chi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.</p>	<p>Mae'r safonau o ran testun a chynhyrchu mewn fersiynau Cymraeg o ddogfennau yr ydym yn eu cynhyrchu'r un fath â'r fersiynau Saesneg.</p>
47	<p>Os ydych chi'n cynhyrchu fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg ar wahân o ddogfen, rhaid i chi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen ar gael yn Gymraeg hefyd.</p>	<p>Rydym yn cynnwys y testun canlynol (yn Gymraeg a Saesneg) yn y fersiwn Saesneg o'r holl gyhoeddiadau ar gyfer y cyhoedd, '<i>This document is also available in Welsh. Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg hefyd.</i>'</p>
Ffurflenni		

48	Rhaid i unrhyw ffurflen yr ydych chi'n ei pharatoi i'r cyhoedd gael ei chynhyrchu yn Gymraeg.	Mae ffurflenni cwyno ac adolygu newydd yr heddlu nawr wedi cael eu datblygu i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol. Mae'r ffurflen gwyno ar gael yn Gymraeg ond bu problem gyda'r ffurflen adolygu ac mae gwaith yn digwydd i sicrhau ei bod ar gael yn y Gymraeg.
48A.	Os ydych chi'n cynhyrchu fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg ar wahân o ffurflen, rhaid i chi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen ar gael yn Gymraeg hefyd.	Hysbyswyd y staff o'r gofyn hwn trwy gyfarwyddyd.
48B.	Os ydych chi'n cynhyrchu ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg (boed hynny'n fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid i chi sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg, a rhaid i chi beidio â gwahaniaethu rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg mewn perthynas ag unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen, neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir i ymateb i gynnwys y ffurflen).	Hysbyswyd y staff o'r gofyn hwn trwy gyfarwyddyd.
Gwefan		
49	Rhaid i chi sicrhau- (a) bod testun pob tudalen o'ch gwefan ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg o'ch gwefan yn gweithio'n llawn, a (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan Rhaid i chi gydymffurfio â safon 49 o dan yr amgylchiadau isod: • tudalennau ar eich gwefan sy'n berthnasol i Gymru yn unig; ac unrhyw dudalennau ar eich gwefan sydd eisoes ar gael yn Gymraeg cyn 30 Medi 2016.	Mae'r tudalennau perthnasol o'n gwefan ar gael yn Gymraeg.
50	Rhaid i chi sicrhau- (a) bod testun hafan eich gwefan ar gael yn Gymraeg, (b) bod unrhyw destun Cymraeg ar eich hafan (neu, pan fo'n berthnasol, eich hafan Gymraeg) yn gweithio'n llawn, a (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â hafan eich gwefan.	Mae hafan ein gwefan ar gael yn y Gymraeg.
52	Os oes gennych dudalen gwe Gymraeg sy'n cyfateb i dudalen gwe Saesneg, rhaid i chi sicrhau bod y dudalen gwe Saesneg yn datgan yn glir bod y dudalen ar gael yn Gymraeg hefyd, a rhaid i chi roi dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.	Rydym yn defnyddio arwydd 'Cymraeg' ar ein tudalennau gwe i ddynodi a yw'r dudalen ar gael yn Gymraeg. Mae defnyddwyr y safle yn clicio ar yr arwydd i symud i'r fersiwn Gymraeg.

53	<p>Rhaid i chi gynnig rhyngwyneb a dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.</p> <p>Rhaid i chi gydymffurfio â safon 53 o dan yr amgylchiadau a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> tudalennau ar eich gwefan sy'n berthnasol i Gymru yn unig; <p>ac</p> <p>unrhyw dudalennau ar eich gwefan sydd eisoes ar gael yn Gymraeg cyn 30 Medi 2016.</p>	Mae hyn wedi'i gwblhau ar gyfer ein gwefan gyfredol.
55	<p>Pan fyddwch chi'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>Rhaid i chi gydymffurfio â safon 55 yn yr amgylchiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> pan fydd defnydd ar gyfryngau cymdeithasol yn berthnasol i Gymru yn unig. 	<p>Mae ein holl negeseuon safonol (pan yn berthnasol i Gymru yn unig) – er enghraifft, cyfeirio pobl at wahanol adrannau o'n gwefan, negeseuon am sut i wneud cwyn, newyddion diweddaraf a gwybodaeth heddlu penodol – yn cael eu trydaru'n ddwyieithog.</p> <p>Yn ystod ein prosiect sydd ar ddod i ddyfodol, adeiladu a phoblogi ein gwefan allanol newydd byddwn yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â safonau'r iaith Gymraeg.</p>
56	Os yw unigolyn yn cysylltu â chi trwy gyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid i chi ymateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).	Hysbyswyd y staff o'r gofyn hwn trwy gyfarwyddyd. Rydym hefyd wedi cyhoeddi gwybodaeth ar ein mewnwyd i sicrhau bod y staff yn gallu cael gafael ar wasanaethau cyfieithu pe bai eu hangen.
Arwyddion		
58	Pan fyddwch chi'n codi arwydd newydd neu pan fyddwch chi'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid i unrhyw destun a arddangosir ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un a yw hynny ar yr un arwydd â'r testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd ar wahân); a phan fydd yr un testun yn cael ei arddangos yn y Gymraeg a'r Saesneg, ni ddylech drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	Hysbyswyd y staff o'r gofyn hwn trwy gyfarwyddyd. Rydym hefyd wedi esbonio sut y gall staff ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu os bydd arnynt eu hangen. Mae proses newydd ar gyfer creu arwyddion apeliadau am dystion wedi'u datblygu ac mae cam yn y broses ar gyfer cyfieithu i'r Gymraeg. Mae hyn yn golygu y bydd arwyddion a fydd yn cael eu defnyddio yng Nghymru yn cynnwys y cyfieithiad perthnasol.
59	Pan fyddwch chi'n codi arwydd newydd neu pan fyddwch chi'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) sy'n cyfleu'r un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i chi osod y testun Cymraeg fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	Hysbyswyd y staff o hyn trwy gyfarwyddyd.
60	Rhaid i chi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.	Hysbyswyd y staff o hyn trwy gyfarwyddyd.
Ymwelwyr		

62	Os ydych chi'n trefnu ymweliad neu apwyntiad o flaen llaw ar gyfer person ("P") a fydd yn golygu y bydd P yn dod i'ch derbynfa, rhaid i chi ofyn i P a yw'n dymuno derbyn gwasanaeth derbynfa yn Gymraeg (oni bai eich bod chi eisoes yn gwybod bod P yn dymuno derbyn y gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg).	Hysbyswyd staff yng Nghymru o hyn trwy gyfarwyddyd ac mae staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu'r gwasanaeth hwn os bydd angen.
62A	Rhaid i chi ddarparu gwasanaeth derbynfa wyneb yn wyneb yn Gymraeg ar gyfer person ("P") yn eich derbynfa os ydych chi wedi trefnu ymweliad neu apwyntiad ar gyfer P o flaen llaw ac- (a) bod P wedi'ch hysbysu chi o flaen llaw bod P yn dymuno derbyn gwasanaeth yn Gymraeg, neu (b) eich bod chi eisoes yn ymwybodol bod P yn dymuno derbyn y gwasanaeth yn Gymraeg.	Hysbyswyd staff yng Nghymru o hyn trwy gyfarwyddyd ac mae staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu'r gwasanaeth hwn os bydd angen.
Dyfarnu cytundebau		
73	Rhaid i unrhyw wahoddiadau am dendr ar gyfer cytundeb yr ydych chi'n eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid i chi beidio â thrin fersiwn Gymraeg unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg. Rhaid i chi gydymffurfio â safon 73 o dan yr amgylchiadau a ganlyn: (a) os yw gwrthrych y gwahoddiad i dendro am gytundeb yn awgrymu y dylid ei gynhyrchu yn Gymraeg, neu (b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylai'r ddogfen gael ei chynhyrchu yn Gymraeg.	Bydd ein staff caffael yn cydymffurfio â'r safon pan fydd y meini prawf ychwanegol yn cael eu bodloni.
74	Pan fyddwch chi'n cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gytundeb, rhaid i chi ddatgan yn y gwahoddiad y gellir cyflwyno tendrau yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.	Mae ein gwahoddiad i dendro yn cynnwys llinell sy'n nodi y gall tendrau Cymraeg gael eu cyflwyno ac na fyddant yn cael eu trin yn llai ffafriol.
74A	Rhaid i chi beidio â thrin tendr am gytundeb a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymhlith materion eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau, ac mewn perthynas â'r raddfa amser ar gyfer hysbysu'r sawl sy'n tendro o benderfyniadau).	Mae staff caffael wedi'u hysbysu o hyn.

76	Os byddwch chi'n derbyn tendr yn Gymraeg a'i bod hi'n angenrheidiol cyfweld y sawl sy'n tendro fel rhan o'ch asesiad o'r tendr rhaid i chi- (a) gynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn galluogi i'r sawl sy'n tendro ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, a (b) os yw'r sawl sy'n tendro yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (oni bai eich bod yn cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	Mae staff caffael wedi'u hysbysu o hyn.
77	Pan fyddwch chi'n hysbysu'r sawl sy'n tendro o'ch penderfyniad mewn perthynas â thendr, rhaid i chi wneud hynny yn Gymraeg os cafodd y tendr ei gyflwyno yn Gymraeg.	Mae staff caffael wedi'u hysbysu o hyn.
Codi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg		
78	Rhaid i chi hyrwyddo unrhyw wasanaeth yr ydych chi'n ei ddarparu yn Gymraeg, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.	<p>Rydym wedi annog aelodau o'r staff sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio'r logo laith Gwaith ar eu negeseuon e-bost. Mae'r logo ar gael ar ein mewnwyd.</p> <p>Mae ein gwefan yn cynnwys gwybodaeth Gymraeg wedi'i diweddarau sy'n egluro pwy ydym ni a sut i wneud cwyn, yn ogystal â gwybodaeth gefndir am gwynion, ymchwiliadau, apeliadau ac adolygiadau. Mae'r wefan hefyd yn tynnu sylw at y ffaith ein bod yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg.</p> <p>Mae ein llinell ymholiadau yn rhoi gwybodaeth ar lafar ac ar bapur am ein gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg.</p> <p>Mae ein staff gwasanaethau cwsmeriaid yn anfon copiâu caled o'n canllaw 'Sut i wneud cwyn: canllaw i system gwynion yr heddlu yn Gymraeg a Saesneg yn ôl y gofyn.</p> <p>Os byddwn yn ymchwilio i gŵyn, a bod yr achwynydd yn gofyn i ni ohebu yn Gymraeg â nhw, rydym yn gwneud hynny.</p> <p>Rydym yn esbonio'r <u>broses ymchwilio yn Gymraeg</u> ac rydym wedi cynhyrchu fersiwn Gymraeg o'n canllaw i ymchwiliadau annibynnol yr IOPC.</p> <p>Mae ein tudalen we <u>cwynion a chanmoliaeth</u> ar gael yn Gymraeg.</p>
79	Os ydych chi'n darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb â gwasanaeth yr ydych chi'n ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw ddogfen gyhoedduswydd neu wefan sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg ddatgan hefyd bod y gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.	Hysbyswyd y staff o'r gofyn hwn trwy gyfarwyddyd. Diwygiwyd ein gwefan i adlewyrchu hyn.
Hunaniaeth gorfforaethol		

80	Pan fyddwch chi'n llunio, diwygio neu'n cyflwyno'ch hunaniaeth gorfforaethol, ni ddylech drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae gennym fersiwn Gymraeg o'n hunaniaeth gorfforaethol.
Polisi		
85	Pan fyddwch chi'n llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n diwygio polisi cyfredol, rhaid i chi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (boed yn gadarnhaol neu'n negyddol), y byddai'r penderfyniad polisi yn cael ei gael ar- (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae ein dogfennaeth Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'u diweddarau i ystyried Safonau'r Gymraeg ac mae'r Gymraeg yn cael ei thrin mewn modd sy'n cyfateb i nodweddion a ddiogelir yng nghyswllt y broses Asesiad Effaith Cydraddoldeb.
86	Pan fyddwch chi'n llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n diwygio polisi cyfredol, rhaid i chi ystyried sut y gallai'r polisi gael ei lunio (neu sut y gellid newid polisi cyfredol) er mwyn i benderfyniad polisi gael effeithiau positif, neu effeithiau cynyddol bositif ar- (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Yr un fath â safon 85 uchod.
87	Pan fyddwch chi'n llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n diwygio polisi cyfredol, rhaid i chi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi cyfredol) fel na fyddai'r penderfyniad polisi yn cael effeithiau niweidiol, neu fel y byddai'n cael effeithiau niweidiol gostyngol, ar- (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Yr un fath â safon 85 uchod.
88	Pan fyddwch chi'n cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n perthyn i benderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen ystyried, a cheisio barnau ar, effeithiau (boed yn gadarnhaol neu'n niweidiol) y byddai'r penderfyniadau polisi dan ystyriaeth yn eu cael ar - (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Yr un fath â safon 85 uchod.
89	Pan fyddwch chi'n cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n perthyn i benderfyniad polisi rhaid i'r ddogfen ystyried, a cheisio barnau ar, sut y gellir llunio'r polisi dan ystyriaeth neu'i newid fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau cadarnhaol cynyddol, ar - (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Yr un fath â safon 85 uchod.

